

## ***Cyngor Cymuned Llanllyfni***

Cofnodion cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth y **14eg o Chwefror 2012.**

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr Iwan Lloyd Williams (cadair), Elwyn Jones Griffith, Ifan Glyn Jones, Dyfed Edwards (cyngh sir), Barry Bracegirdle, Menna Williams – Penygroes; Dafydd Glyn Owen, Sharon Wynne Jones, Harry Wyn Owen – Talysarn; Eurig W Evans – Nebo; Gwyndaf Roberts, Hefina MW Roberts – Llanllyfni; T Les Jones - Nantlle .

### **Cynllunio**

#### **Derbyniwyd y ceisiadau canlynol ar gyfer sylwadau'r Cyngor:**

\* The Rectory, Llanllyfni – adeiladu ty annedd deulawr newydd. Roedd y Cyngor yn derbyn y cais, ond gyda phryderon am yr effaith a gai tyllu'r safle ar wal yr eglwys a wal y fynwent. Barn y Cyngor oedd y dylai wal gerrig ayr annedd arfaethedig wynebu i gyfeiriad y lon, dim i gyfeiriad y Rheithordy. Byddwn yn gofyn i Gyngor Gwnedd gynnal cyfarfod safle cyn gwneud eu penderfyniad.

\* Tir ger Bro Silyn, Talysarn – adeiladu rhodfa newydd i wasanaethu'r domen lechi ynghyd a chreu mynedfa newydd. Roedd y Cyngor yn cefnogi.

\*40 Ffordd Rhedyw, Llanllyfni – estyniad. Roedd y Cyngor yn cefnogi'r cais yma.

### **Gohebiaeth**

#### **Cyngor Gwynedd**

\*Cynllun Datnblygu Lleol ar y Cyd – trafodwyd mewn grwpiau, a nodwyd y sylwadau i'w cyflwyno i Gyngor Gwynedd. Roedd y Clerc wedi derbyn caniatad Cyngor Gwynedd i gyflwyno sylwadau ar y 15ed o Chwefror, sef ar ol y dyddiad cau.

\*Deddf Trwyddedu – cais i adolygu trwydded eiddo y Vic, Penygroes. Roedd y Cyngor yn cefnogi cais yr Heddlu i adolygu'r drwydded, ac wedi ymateb yn ol i Gyngor Gwynedd.

\*Gorchymyn – Ffordd Allt Goch, Penygroes – derbyniwyd gwybodaeth am waharddiad trafndiaeth dros dro, a bod y lon yn cau am gyfnod ar gyfer gwaith ail-wynebu.

### **Arall**

\*Heddlu Gogledd Cymru – derbyniwyd diweddariad ar wasanaeth yr Heddlu yng Ngogledd Cymru.

\*Derbyniwyd llythyr gan y BBC, yn gwneud cais am wirfoddolwyr ar gyfer rhaglen New Nation.

\*Darllenwyd llythyr o ddiolch gan Grwp Blodeuwedd am y rhodd tuag at y goeden Nadolig.

\*Daeth llythyr gan Gymdeithas Preswylwyr Penygroes, a oedd yn rhoi diweddariad ar sefylla CCTV ym Mhenygroes. Cytunwyd gyrru'r ail ran o'r cyfraniad ariannol a addawyd iddynt, a byddwn yn gyrru siec am £1000.

\*Derbyniwyd llythyr gan bwyllgor y Skate Park Talysarn. Penderfynwyd cyfrannu £500 tuag at yswiriant y parc sglefrio fel eithriad am eleni, gan obeithio y byddai hyn yn ysgafnhau rhywfaint ar y faich ariannol bresennol.

### **Adroddiadau Pentrefi.**

**Penygroes** Ffordd Clynnog – rhwng yr ynys ar y ffordd osgoi a Ffordd Clynnog, mae 'llynellau gwyn wedi torri fyny' ar y ffordd, a cheir yn pasio yno. Mae hyn yn ei gwneud hi'n beryglus i geir sy'n troi. Byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd

\*Allt Goch –mae traffic mawr yn dod i fyny'r ffordd yma gan gynnwys lorïau a bysiau (er bod cyfyngiad), a mae diffyg llefydd pasio o Eithinog i waelod Allt Goch. Byddwn yn gofyn barn Cyngor Gwynedd am ei lleddu neu greu llefydd pasio ar hyd wal Gyllifon i lawr.

\* Parcio Ffordd Llwyndu – derbyniwyd cwyn am barcio o waelod Ffordd y Brenin – dylai bod llynellau melyn yn y gwaelod ar y gyffordd i'r lon gefn. Yr ochr uchaf Ffordd Llwyndu, mae'r llynellau melyn angen eu ail-peintio gan bod pobl yn parcio yno, a thydyn nhw ddim yn cyrraedd mynedfa'r ysgol chwaith . Byddwn yn gofyn I swyddog Cyngor Gwynedd edrych ar y sefyllfa.

**Llanllyfni** Baw cwn yn broblem yn y pentref, a pharcio ar y palmentydd yn parhau yn broblem.

**Talysarn** Hysbyswyd y Cyngor bod adeilad peryglus yr ochr bellaf i Twll Talysarn, a byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd. Hefyd mae eitemau wedi eu tipio yn anghyfreithlon dros y ffordd i'r ystafelloedd newid a thu ol i'r byngalos. Eto, byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

**Nantlle** Byddwn yn gwneud cais i ail-wynebu lon Talysarn i Nantlle.

**Ceisiadau am Arian 2011-12.** Penderfynwyd fel a ganlyn:

**£50 yr un i:** Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni, Cymdeithas Garddio Dyffryn Nantlle, Cylch Meithrin Penygroes, Lleu, Clwb Pel Droed Llanllyfni, Pwyllgor Ardal Nebo a Nasareth, Aelwyd Urdd Dyffryn Nantlle, a **£150** i Neuadd Goffa Penygroes. Cyfanswm **£500**.